# Urdd Gobaith Cymru
# Taflen Beirniadaeth Llwyfan

Enw : Gwilym Morgan    Cangen :

Cystadleuaeth : Medal y Dysgwyr

Safle : Ennill y fedal.

Llongyfarchiadau Gwilym am ddysgu'r Gymraeg i safon ardderchog. Rwyt yn siarad yn rhugl, a'r iaith yn llifo. Mae dy ynganiad yn glir ac yn hollol naturiol. Mae dy frwdfrydedd yn amlwg ymhob brawddeg a'th ymroddiad i'r iaith yn awgrymu dy fod wedi dy ennill i Gymreictod. Da iawn yn wir!

Roeddem yn edmygu'r cyfraniad rwyt yn ei wneud i'r Gymraeg yn yr ysgol ac i'r defnydd helaeth rwyt yn wneud ohoni yn gymdeithasol.

Roeddet wedi ymateb yn bwrpasol a diddorol i bob un cwestiwn yn y cyfweliad ac roeddet yn medru ymhelaethu ymhob trafodaeth. Ardderchog.

Yn ystod y sesiwn holi Wyn Jones roeddet, nid yn unig wedi gofyn yn effeithiol ond hefyd wedi cymdeithasu yn Gymraeg gyda phawb o gwmpas. Ardderchog eto!

Llongyfarchiadau ar ennill Medal y Dysgwyr mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn.

Pob dymuniad da iti i'r dyfodol

Llofnod Beirniad :

Cadeirydd: Dyfrig Davies
Prif Weithredwr: Sian Lewis

Cwmni Urdd Gobaith Cymru. Rhif Cwmni: 263310
Cwmni Cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru.
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

# Eisteddfod yr Urdd
# Sir Gaerfyrddin 2023

Eisteddfod

## Urdd Gobaith Cymru
## Taflen Beirniadaeth Llwyfan

**Enw:** Daisy Haikala **Cangen:**

**Cystadleuaeth:** Medal y Dysgwyr

**Safle:** 2il

Llongyfarchiadau i ti Daisy ar safon arddechog dy Gymraeg. Rwyt yn siarad yn rhugl, yn glir, ac mae dy ynganiad yn eithriadol o naturiol. Roeddet wedi deall ac wedi ymarfer yn bwrpasol i bob cwestiwn. Rwyt yn berson galluog ac mae dy iaith yn ddigon da i ti fedru cyfathrebu syniadau a gwybodaeth eithaf cymhleth a threiddgar. Roeddem wedi mwynhau sgwrsio â ti yn fawr iawn.

Roedd dy ymatebion ysgrifenedig yn fanwl, yn gywir ac yn ddiddorol. Gwnest yn arddechog yn y sesiwn holi Wyn Jones. Gobeithio dy fod wedi magu hyder o'r profiad.

Da nodi dy fod yn manteisio ar y cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg yn yr ysgol fel y fforwm ieuenctid, y Siarter Iaith a'r eisteddfod. Da iawn!

Diolch am ddysgu'r iaith i safon ragorol. Llongyfarchiadau ar ddod mor agos i'r brig mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn. Roedd yn bleser cwrdd â ti. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

**Llofnod Beirniad:** [signature]

Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Sian Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**. Rhif Cwmni: 263310
Cwmni Cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru.
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

# Urdd Gobaith Cymru
# Taflen Beirniadaeth Llwyfan

**Enw :** Niki Shever **Cangen :**

**Cystadleuaeth :** Medal y Dysgwyr.

**Safle :** 3 ydd

Llongyfarchiadau Niki, rwyt wedi dysgu Cymraeg i safon uchel iawn. Rwyt yn siarad yn gywir iawn, ac mae dy ynganiad yn glir ac yn naturiol. Rwyt yn berson deallus iawn, mae gennyt syniadau cymhleth a threiddgar ac rwyt yn medru cyfathrebu'r syniadau hynny'n effeithiol yn dy drydedd iaith! Llongyfarchiadau!

Roedd dy atebion ysgrifenedig o safon uchel ac roeddet wedi llwyddo'n eithriadol o dda yn y sesiwn gofyn ac ateb gyda Wyn Jones. Roeddet i' glywed yn eitha hyderus.

Gobeithio y byddi'n parhau gyda diddordeb yn y Gymraeg. Diolch iti am ei dysgu.

Pob dymuniad da iti i'r dyfodol.

Llofnod Beirniad : [signature]

Cadeirydd: **Dyfrig Davies**
Prif Weithredwr: **Sian Lewis**

**Cwmni Urdd Gobaith Cymru**, Rhif Cwmni: 263310
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru.
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

# Urdd Gobaith Cymru
# Taflen Beirniadaeth Llwyfan

Enw : Francesca Thompson Cangen :

Cystadleuaeth : Medal y Dysgwyr

Safle :

Llongyfarchiadau iti Francesca. Mae dy Gymraeg yn ardderchog! Rwyt yn deall popeth ac yn siarad yn rhugl. Mae dy iaith yn gywir, rwyt yn siarad yn glir a'th ynganiad yn naturiol iawn. Roeddet yn medru ymateb yn ddiddorol a deallus i bob cwestiwn. Gwnest yn dda iawn hefyd yn y sesiwn cwestiwn ac ateb gyda Wyn Jones. Gobeithio y byddi wedi ennill hyder o'r profiad.

Roeddet gyda'r goreuon mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn.

Pleser oedd cael cwrdd â ti. Pob dymuniad da iti i'r dyfodol.

Llofnod Beirniad : [signature]

# Urdd Gobaith Cymru
# Taflen Beirniadaeth Llwyfan

**Enw :** Raleus Richards **Cangen :**

**Cystadleuaeth :** Medal y Dysgwyr.

**Safle :**

Llongyfarchiadau ar dy Gymraeg Raleus, mae o safon uchel iawn. Rwyt yn siarad yn gywir ac yn rhugl. Rwyt yn medru cyfathrebu gwybodaeth am bynciau eitha technegol yn glir a deallus. Mae dy ysgrifennu hefyd yn dda. Ardderchog yn wir!

Roeddem wrth ein bodd i ddeall dy fod yn gwneud llawer o'th gyfathrebu drwy dechnoleg a'th fod yn cyfieithu gemau ac ati i'r Gymraeg. Mae hyn yn gyffrous iawn, mae angen pobl, fel ti, sy'n gallu gwneud hyn ar y Gymraeg. Gobeithio y byddi yn parhau i fod yn frwdfrydig dros yr iaith.

Roeddem wedi mwynhau cwrdd â ti, roeddet yn ymgeisydd ardderchog. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Llofnod Beirniad : [illegible]

Cadeirydd: Dyfrig Davies
Prif Weithredwr: Sian Lewis

Cwmni Urdd Gobaith Cymru. Rhif Cwmni: 263310
Cwmni Cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru.
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

Eisteddfod yr Urdd
Sir Gaerfyrddin 2023

Eisteddfod

# Urdd Gobaith Cymru
# Taflen Beirniadaeth Llwyfan

**Enw :** Millie Kate Barrett **Cangen :**

**Cystadleuaeth :** Medal y Dysgwyr

**Safle :**

Llongyfarchiadau Millie Kate am dy frwdfrydedd tuag at yr iaith. Rwyt yn gwneud llawer iawn o weithgareddau i gefnogi'r Gymraeg yn dy ysgol ac yn y gymdeithas yn dy ardal. Da iawn yn wir. Gobeithio y byddi'n parhau'r ymroddiad yma ac yn gwireddu dy benderfyniad i astudio'r Gymraeg yn y Coleg.

Roeddet wedi llwyddo i gynnal sgwrs ddiddorol, wedi deall y rhan fwyaf o'r cwestiynau ac wedi ymateb yn bwrpasol.

Roedd yn bleser cwrdd â ti. Dymunwn <u>bob</u> llwyddiant iti yn y dyfodol.

Llofnod Beirniad : [illegible]

Cadeirydd: Dyfrig Davies
Prif Weithredwr: Sian Lewis

Cwmni Urdd Gobaith Cymru. Rhif Cwmni: 263310
Cwmni Cyfyngedig. Cofrestrwyd yng Nghymru.
Elusen Gofrestredig Rhif 524481

# Urdd Gobaith Cymru
# Taflen Beirniadaeth Llwyfan

Enw : Deryn Bach Allen-Dyer Cangen :

Cystadleuaeth : Medal y Dysgwyr.

Safle :

Llongyfarchiadau am siarad y Gymraeg yn rhugl ac yn naturiol iawn. Roeddet yn medru deall pob peth ac yn ateb yn berthnasol. Da iawn.
Roeddem wrth ein bodd i glywed am yr holl weithgareddau rwyt yn eu gwneud drwy gyfrwng y Gymraeg, er enghraifft, gyda Urdd y Cymoedd a gyda Merched Aloud. Gobeithio y byddi'n parhau i wneud y cyfraniad ardderchog yma.
Mae dy Gymraeg o safon uchel a'th ymroddiad a'th frwdfrydedd yn amlwg.
Dymunir yn dda iawn iti i'r dyfodol.

Llofnod Beirniad : S. G. Price

Cadeirydd: Dyfrig Davies
Prif Weithredwr: Sian Lewis

Cwmni Urdd Gobaith Cymru, Rhif Cwmni: 263310
Cwmni Cyfyngedig, Cofrestrwyd yng Nghymru.
Elusen Gofrestredig Rhif 524481